Cyngor Bro Llanfihangel Glyn Myfyr

Cofnodion y Cyfarfod ar 18fed o Ionawr 2023

Yn bresennol oedd Helen Jones, Generys Roberts, Arwyn Ellis, Medwyn Roberts, Gethin Jones, Eryl Evans (cadeirydd).

Cafwyd ymddiheuriadau gan Llyr Jones a Cyngh. Gwennol Ellis ar amodau tywydd gwael.

Nid oedd neb wedi datgan diddordeb ir AGENDA

Darllenwyd y cofnodion blaenorol ac eu harwyddo fel rhai cywir.

<u>Gohebiaeth</u>

LLyfrgell Cymunedol Cerrig y Drudion yn ddilyn y Cyfarfod yn Mhentrefoelas yn ddiweddar lle roedd Aaron Wynne a Cyn Gwennol Ellis yn nodi bod toriadau i Lyfrgelloedd yn Sir Conwy ac diben y Cyfarfod oedd i drio anog y 4air cymuned gyfrannu tuag at gost cynnal y llyfrgell gofynwyd am £3000.00 i gadw llyfrgel yn Ngerrig y Drudion, gofynwyd am £500 oddiwrth Cyngor Bro Llanfihangel cytunwyd i gyfrannu.

Cyngor Conwy pasiwyd i godi y precept i £6000.00 eleni.

Lelo Sgip anfoneb am y sgip yn ol yn mis Tachwedd £312.00 pasiwyd iw dalu.

Dwr Cymru anfoeb dwr £56.51 wedi ei dalu DD.

Cartrefi Conwy pasiwyd i gysylltu i weld beth yw y diweddar ar y llygod Mawr.

Cyngor B Sirol Conwy anfoneb am yr etholiad yn ol yn mis Mai £135.00 pasiwyd iw dalu.

Cynllun Chwarae Cyngor Conwy pasiwyd i gefnodi yn ariannol i gynnal y cynllun chwarae haf yn Ngherrig y Drudion pasiwyd i roi £200 fel llynnedd.

Tan Gwyllt gwnaethbwyd casgliad o £200 ir Ambiwlans Awyr.

Swper Pensiynwyr cafwyd noson llwyddiannus yn y Giler gwnaethbwyd casgliad o £77.00 o werthiant raffl elw i Ambiwlans Awyr.

Ambiwlans Awyr pasiwyd i roi siec o £277.00 ir Ambiwlans Awyr ar ol noson Tan Gwyllt a Swper Pensiynwyr.

Hywel Jones mae’r gwaith ffensio wedi ei gwbwl hau yn y cae chwarae ac ma taliad o £7666.80 wedi ei wneud hynny n cynwys y £500 ychwanegol gan y Cyngor am brisiau nwyddau sydd wedi codi ers rhoi pris i mewn.

Ad daliad treth ar werth yn ol £1401.64.

Precept olaf £1766.00 wedi ei dderbyn.

Y fynwent pasiwyd i ysgrifennu llythyr yn mynnegu ein siomiant am safle bedd yn y fynwent gan nodi bod Peredur Roberts wedi tori amodau trefn y fynwent ar ol trafod safle y bedd gyda’r clerc.

Canolfan Glyd Cerrig y Drudion Nodwyd bod canolfannau clyd wedi ei sefydlu yn Ngherrig y Drudion yn ddilyn grant y n ddiweddar. Yn y Llew Gwyn ac yn y LLyfrgell.

Capel Maes yr Odyn talu am logi yr ystafell i gyfarfodydd £50.00.

Cyngor Sir Ddinbych y clerc i gysylltu efo Sir i gwyno bod trefn y greannu ar defyn dwy sir ddim yn ddigonnol or ochr Sir Ddinbych.